LC906

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2004**

Diben y Gorchymyn hwn yw datgymhwyso darpariaethau statudol amrywiol mewn perthynas ag ymddygiad aelodau o awdurdodau lleol a chyrff cysylltiedig. Nid yw'r darpariaethau hynny yn angenrheidiol bellach yn dilyn cyflwyno'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Roedd Adran 107 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 6 iddi yn darparu ar gyfer diddymu y darpariaethau statudol amrywiol sy'n cael eu datgymhwyso bellach, ond nid oes gorchymyn cychwyn wedi'i wneud mewn perthynas â'r darpariaethau hynny. Mae'r pwer cychwyn o dan yr adran honno yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, ond mae gan y Cynulliad Cenedlaethol rym datgymhwyso o dan adran 105 o'r Ddeddf, a gofynnir iddo ei weithredu yn awr.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 11.7.

**Sylwadau**
Gwelodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor ddrafft blaenorol o'r Gorchymyn a fe sylwasant ar fân wallau teipogaffyddol oedd yn addas i'w cywiro wrth gyhoeddi a bu modd iddynt dynnu sylw'r cyfreithiwr â'i drafftiodd atynt.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**8 Mehefin 2004**